# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 2 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(210)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**Cwestiwn Brys**
Dechreuodd yr eitem am 15.01

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y cyngor a gafwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i beidio â gwneud unrhyw sylw ar faterion sy'n ymwneud â Cylchdaith Cymru, yn unol â'r hyn a ddatgelwyd yn adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol a osodwyd yn y llyfrgell ar 1 Gorffennaf?

### 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ariannu Addysg Uwch

Dechreuodd yr eitem am 15.14

**NDM5544 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5546 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru;

2. Yn gresynu at:

a) diffyg cyllid Llywodraeth Cymru i Croeso Cymru;

b) penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol;

c) uchelgais cul Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella nifer yr ymwelwyr tramor â Chymru;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar sut y mae'n ymgynghori â darparwyr twristiaeth yng Nghymru ac yn cael ei harwain ganddynt.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 36 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y gall y diwydiant twristiaeth wneud y mwyaf o botensial ein treftadaeth gyfoethog a'n hamgylchedd amrywiol, yn ogystal â manteisio ar ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 15 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r broses o gasglu a monitro data sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a gwybodaeth am y farchnad i lywio blaenoriaethau strategol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5546 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y gall y diwydiant twristiaeth wneud y mwyaf o botensial ein treftadaeth gyfoethog a'n hamgylchedd amrywiol, yn ogystal â manteisio ar ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r broses o gasglu a monitro data sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a gwybodaeth am y farchnad i lywio blaenoriaethau strategol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5545 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

2. Yn nodi nad yw'r adroddiad yn ymdrin yn gynhwysfawr â gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y gwasanaeth iechyd, yn sgil y cylch gorchwyl a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

3. Yn credu bod angen darparu mandad democrataidd ar gyfer pecyn strategol hirdymor i ddiwygio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

4. Yn credu ymhellach mai'r ffordd orau o drafod a datrys y cydbwysedd o gymwyseddau a darparu gwasanaethau cyhoeddus rhwng llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a chymunedol yw drwy faniffestos pleidiau yn ystod etholiad nesaf y Cynulliad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 39 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 23 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn credu y byddai'r atebolrwydd ychwanegol a fyddai'n deillio o system bleidleisio deg yn gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 35 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr adroddiad yn datgan y dylid sicrhau y caiff dinasyddion a chymunedau eu cynnwys yn fwy wrth gydgynhyrchu'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr adroddiad yn datgan y 'gall y trydydd sector roi gwybodaeth am brofiad defnyddwyr o wasanaethau a gall helpu i sicrhau yr ymgysylltir mewn ffordd systematig a chynaliadwy â chymunedau yn ogystal ag arbenigedd y sector mewn meysydd polisi a gwasanaeth amrywiol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am werthusiadau cost llawn cyn cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â newidiadau strwythurol i wasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 24 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5545 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

2. Yn credu bod angen darparu mandad democrataidd ar gyfer pecyn strategol hirdymor i ddiwygio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

3. Yn credu ymhellach mai'r ffordd orau o drafod a datrys y cydbwysedd o gymwyseddau a darparu gwasanaethau cyhoeddus rhwng llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a chymunedol yw drwy faniffestos pleidiau yn ystod etholiad nesaf y Cynulliad.

4. Yn nodi bod yr adroddiad yn datgan y dylid sicrhau y caiff dinasyddion a chymunedau eu cynnwys yn fwy wrth gydgynhyrchu'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

5. Yn nodi bod yr adroddiad yn datgan y 'gall y trydydd sector roi gwybodaeth am brofiad defnyddwyr o wasanaethau a gall helpu i sicrhau yr ymgysylltir mewn ffordd systematig a chynaliadwy â chymunedau yn ogystal ag arbenigedd y sector mewn meysydd polisi a gwasanaeth amrywiol'.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.58

**6 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**NDM5543 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Gweinyddu cynllun y bathodyn glas gan gynghorau lleol a Llywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014**